LAMPETER TOWN COUNCIL CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.

COFNODION CYFARFOD MISOL 30ain O HYDREF 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd yr aelodau i'r Cyfarfod Misol gan y Maer Derek Wilson.

YN BRESENNOL

Y Maer Derek Wilson (Cadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis;
John Davies; Margaret Davies-Evans;
Robert Phillips; Kistiah Ramaya;
Cyng. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris;
Cyng. Sirol Ivor Williams
Mr Dave Smith (Cadeirydd y Siambr Fasnach)

2. YMDDIHEURIADAU

Cyng. Greg Evans; Lynda Mason-George; Chris Thomas
Dirprwy-Faer Selwyn Walters a Dorothy Williams.

3. FFORWM AR GYFER Y CYHOEDD

Lansiwyd y Fforwm a gyfer y cyhoedd yn ystod y cyfarfod hwn, gan ddenu un datganiad o ddiddordeb sef Mr Dave Smith, Cadeirydd y Siambr Fasnach. Roedd ei bwnc trafod yn ymwneud a gefeillio'r dref â St Germain sur Moine. Dechreuwyd 5 mlynedd yn ôl. Mae nifer o arwyddion yn ymddangos yn St Germain sur Moine ac enwir y Sgwâr ar ôl tref Llanbedr PS. Y garreg a godwyd ar y glas gyferbyn â Swyddfa yr Heddlu'n Llanbedr PS, yw'r unig dystiolaeth o fewn y dref sy'n cyhoeddi'r efeillio, ar hyn o bryd. Sicrhawyd Mr Smith bod arwyddion yn datgan cysylltiad Llambed â'r dref Ffrengig wedi eu harchebu dan law'r Cyngor Sir ar gyfer y 4 brif fynedfa i'r dref. (Croes-gyf 7.4)

Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i enwi lle yn Llanbedr Pont Steffan fel teyrnged i St Germain sur Moine. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn broses hir a chymleth. Cytunwyd i adael y penderfyniad bod aelodau'n ystyried newid lle, tan y cyfarfod nesaf.

Adroddodd y Cyng. Phillips, ers dyfodiad Polisi Iaith y Cyngor Tref, dylai aelodau ffafrio enwau Cymreig ar leoedd, yn hytrach nag eu henwi mewn ieithoedd eraill.

Ar derfyn y drafodaeth diolchodd y Gyng. Barton i Mr Smith am fynychu'r cyfarfod a mawr obeithiai y byddai'r Fforwm ar gyfer y Cyhoedd yn dwyn ffrwyth.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

4.1 Ardal Ddi-Alcohol ar gyfer Tref Llanbedr Pont Steffan

Cyflwynwyd llythyr i'r *Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion* yn mynegi bod y Cyngor Tref (CT) yn dymuno cyflwyno cais ar y cyd rhwng yr heddlu a'r CT am ardal ddi-alcohol. Mae'r cais ddiwygiedig yn gofyn am ardal ddi-alcohol ar gyfer Sgwâr Harford, y 3 brif heol i'r dref, Parc-yr-Orsedd a Maes Parcio'r Archfarchnad Somerfield.

4.2 Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys: Cynllun Plismona 2009-12: 3 blaenoriaeth eu hangen ar gyfer yr ardal. Cytunwyd ar, "Rhwyddineb mynd at yr Heddlu;" "Ymddygiad Gwrthgymdeithasol" a "Heddlu'n amlwg ar y strydoedd". Hefyd i fynegi y byddai'r Cyngor Tref yn gwerthfawrogi unrhyw gymorth i ddod â'r "Ardal Gwahardd Alcohol" i fodolaeth, cyn gynted â bo modd.

4.3 Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys: Cyfarfod Ymgynghori Cymunedol: Nos Iau 20fed o Dachwedd am 7pm: Siambr y Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron. Enwebwyd y Maer a'r Dirprwy-Faer i fynychu'r cyfarfod.

5. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

5.1 Datgelodd y Cyng. Carter ddiddordeb personol pan drafodwyd y cais am gymorth ariannol oddi wrth Gangen y Sgowtiaid Llanbedr PS.

6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD – 25/09/2008

Cytunwyd eu bod yn gywir arwahan i'r canlynol:

6.1 Cofnod 10.3 Eirwyn Williams: torri gwair dros fisoedd yr haf – Parc-yr-Orsedd £550. Dylai fod £510. Talwyd £40 yn ychwanegol i Mr Williams am atgyweirio'r llwybr sy'n arwain o Eglwys San Pedr i Stâd Maesyderi. (Camgymeriad – cofnodion Saesneg Mis Medi yn unig)

6.2 Cofnod 12.4: Byddai dymuniadau gorau'n cael eu cyfleu i'r Cyng. John Davies ar ei ymddeoliad o'r Siop Ddillad Dynion megis *Danny BJ* sydd wedi bod yn eiddo i'w deulu yn hwy na hanner canrif. – Enw'r siop oedd *Daniel Davies* ac nid *Danny BJ.*

7. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

7.1 Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref: adroddodd y Maer y byddai'n costio oddeutu £1,000 i atgyweirio'r hysbysfwrdd. Dywedodd Mr Geraint Hughes, Adran y Stadau, Cyngor Sir Ceredigion (CSC), ei fod yn cysylltu ag adrannau priodol o fewn y Cyngor Sir a bydd yn cysylltu â'r Cyngor Tref cyn bo hir, ynglŷn â'r cais i leoli'r hysbysfwrdd ar wal y llyfrgell, mewn ymdrech i ostwng fandaliaeth.

7.2 Cymuned ar y Cyd: Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

7.3 Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion: - y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

7.4 Arwyddion newydd ar gyfer y dref: Derbyniwyd 2 opsiwn gan y Cyngor Sir fel canlyniad i'r cyfarfod o'r 7fed o Hydref rhwng cynrychiolydd y CSC sef Katy Spain *Peirianydd Cynorthwyol Strategaeth Cludiant CSC* ac is-bwyllgor y CT sef y Maer, Dirprwy-Faer, Cyng I Williams, H.Harris R.Phillips a'r Clerc. Eglurwyd materion yn ymwneud â dyluniad, gosodiad a gwneuthuriad arwyddion ffiniau, Tref Llanbedr PS. Cytunwyd ar Opsiwn B: (yn amgaeëdig)

Opsiwn B:

Gwaith Cynhyrchu Arwydd Opsiwn B	4 x £387.38	=	£1549.52
Tâl Dylunio (15%)	0.15 x £387.38	=	£58.11
Gosodiad (codi arwyddion a gosod pyst newydd)		=	£1701.87
	CYFANSWM	=	**£3309.50**

Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir ac i anfon llun arfbais y dref atynt.

7.5 Cystadleuaeth Calor Pentref y Flwyddyn: penderfynwyd y byddai'r Maer a'r Dirprwy-Faer yn mynychu'r Seremoni'r Gwobrwyo yn Neuadd y Gild, Llundain a drefnwyd ar gyfer Mawrth yr 2ail o Ragfyr. Trafodwyd costau aelodau pan yn ymwneud â dyletswyddau'r Cyngor Tref. Penderfynwyd y byddai'r CT yn talu'r costau hyn, yn y dyfodol. (Y Clerc i lunio Ffurflen Costau). Fel canlyniad, byddai treuliau y Maer a'r Dirprwy-Faer yn cael eu talu o gronfa'r Cyngor Tref, ar gyfer teithio ac aros dros nos yn ystod eu hymweliad â Llundain, sydd ar ddigwydd.

7.6 Cynllun Cadwch Gymru'n Daclus: derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr Tegryn Jones Prifweithredwr *Cadwch Gymru'n Daclus* yn diolch i'r Cyngor Tref am

gymryd rhan yn y gystadleuaeth eleni. Cyflwynwyd y cais gan y Cyng. Chris Thomas. Yn anffodus, ni lwyddodd y CT i gyrraedd y restr fer. Bu'r Cyng. Thomas yn sgwrsio â chynrychiolydd o'r *Cadwch Gymru'n Daclus* yn ystod y Gynhadledd *Un Llais Cymru* o'r 11eg o Hydref. Awgrymwyd y gallai'r Cyngor Tref ail-geisio am gymhorthdal petai pawb yn gytun, ond byddai rhaid cael cyfraniad grwpiau gwirfoddol y dref, gan fod y pwyllgor yn edrych am bartneriaethau-gwaith agos o fewn y dref.
Penderfynwyd, mewn cyfarfod blaenorol i brynu'r bin ail-gylchu o gronfa'r Cyngor Tref petai'r cais *Cadwch Cymru'n Daclus* yn fethiant, eleni. Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn caniatâd i leoli'r bin yn ardal Sgwâr Harford.

7.7 **Adroddwyd na fyddai cynrychiolydd o'r Cyngor ar Bopeth** (Citizens Advice Bureau) yn medru mynychu'r cyfarfod hwn na'r cyfarfod mis nesaf. Mae Stella Van der Geyton, y person a ffafriwyd i fynychu'r cyfarfod, wedi gadael y swyddfa erbyn hyn. Penderfynwyd ceisio cyfarfod ar gyfer y flwyddyn newydd er mwyn trafod cyfraniad ariannol y Cyngor Tref i'r wasanaeth ac i egluro y fath o wasanaeth a gynigir gan CAB yn Llanbedr PS.

7.8 **Dofgen a dderbyniwyd oddi wrth Peter Bosley Cadeirydd Cymdeithas Llanbedr Pont Steffan, Y Sefydliad Alumni ar gyfer Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan**;
Y Ddogfen – *Datganiad Ynglŷn â Sefyllfa Llys Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Chyngor Prifysgol Cymru Llanbedr PS* – penderfynwyd peidio ag ymateb i'r ddogfen. Soniodd Mr Bosley am ddigwyddiadau y 5/6ed o Ragfyr. Mae'r Gymdeithas yn ceisio dod â'i raddedigion at ei gilydd mewn trafodaeth lawn ar agweddau'r sefyllfa a syniadau ar y ffordd ymlaen. Caiff yr agenda ei anfon at y Cyngor Tref maes o law.

7.9 **Un Llais Cymru**: **Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol:** Mynychodd y Cyng. Chris Thomas y cyfarfod a derbyniwyd adborth oddi wrtho. Y mae pecyn hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned ar fin dod i fodolaeth. Bydd hyfforddwyr yn ymgymryd â hyfforddiant ym mis Tachwedd a bydd hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr yn dechrau yn fuan ar ôl hynny. Mae Un Llais Cymru ar fin sefydlu safle ar y we a gall cynghorau thref a chymuned sy'n aelodau o Un Llais Cymru ychwanegu eu gwefan ar safle ar y we Un Llais Cymru. Mae'n debygol y bydd gan bob cynghorydd gair cyfrin ar gyfer derbyn mynediad i'r safle a bydd yn rhoi'r hawl iddynt edrych ar gyhoeddiadau a llenyddiaeth ymgynghorol dros y we. Clustnodir cod gwahanol ar gyfer clercod a bydd ganddynt yr hawl i diweddaru'r safle ar gyfer eu Cyngor hwy.

Derbyniwyd anerchiad oddi wrth Jane Davidson AC Gwenidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cydnabod y cyfraniad pwysig y gall cynghorau lleol ei wneud ym maes yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Bu'r enillydd Gwobr Nobel Syr John Houghton FRS CBE yn rhoi cyflwyniad i'r gynhadledd ar yr her newid hinsawdd sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd. Bu Cyngor Plwyf Ashton Hayes yn rhoi arddangosiad ymarferol o'r hyn y gall haen gyntaf llywodraeth ei wneud i fynd ar afael â materion byd-eang. Mae'r Cyngor hwn wedi hen gychwyn ar y gwaith o wneud Ashton Hayes y pentref carbon niwtral cyntaf yn Lloegr, gan ei fod wedi torri ei allyriadau 21% ers i'r prosiect gychwyn.
Cafwyd gyflwyniad gan Peter Davies, Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy i Gymru. Bu Un Llais Cymru yn gweithio gyda Peter ac eraill i helpu datblygu cysyniad y gymuned gynaliadwy, gan roi sylw i amcanion cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag i rai amgylcheddol.

MATERION NEWYDD SY'N CODI

7.10 Trefniadau ar gyfer Sul y Cadoediad. 9/11/2008: trafodwyd y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth sef 90 o flynyddoedd ers pan orffennwyd y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1918, er mwyn dwyn i gof y rhai y bu farw yn y ddwy Rhyfel Fawr y ganrif olaf ac mewn brwydrau terfysgol ers hynny.

8. GOHEBIAETH

8.1 Cyngor Sir Ceredigion Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Adrannau 55(2) a 57(4) Arolwg o'r Ffiniau Cymunedol yn Sir Ceredigion: Y mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu cynnal arolwg o'r ffiniau cymunedol ac o drefniadau etholiadol Cymunedol o fewn y Sir. Mae angen sylwadau'r Cyngor Tref. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd peidio ag anfon sylwadau at y Cyngor Sir.

8.2 Pwyllgor Ardal Ceredigion: Un Llais Cymru: 9/10/2008 am 7.00pm ym Mhenmorfa, Aberaeron. Roedd yr agenda yn cynnwys anerchiad gan gynrychiolwyr y Cyngor Sir parthed *Diwygio Strategaeth Gymunedol Ceredigion* a *Rhaglen Newid Rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf* a *Chynllun Datblygu Lleol – grwp Rhanddeiliad Allweddol*: nodwyd er gwybodaeth.

8.3 Arolwg o ganyliadau Etholiadau Cyngor Cymuned 2008: Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru: Mae'r Comisiwn wedi mynd ati'n ddiweddar i gasglu a rhoi ynghyd canlyniadau etholiadau cynghorau Tref a Chymuned 2008. Diben yr ymarferiad oedd nodi nifer y seddi diymgeisydd, a hefyd nifer y seddi sydd yn dal yn wag, yn syth ar ôl yr etholiad.

- Ym 2008 roedd 68% o seddi'n ddiymgeisydd;
- Ym 2004 roedd 77% o seddi'n ddiymgeisydd.

- Ym 2008 roedd 12% o'r seddi Cynghorau tref a Chymuned yn parhau'n wag;
- Ym 2004 roedd 12% o'r seddi Cynghorau Tref a Chymuned yn parhau'n wag.

- Ym 2008 cymhareb yr etholwyr fesul Cynghorydd Tref/Cymuned yw 205:1
- Ym 2004 cymhareb yr etholwyr fesul Cynghorydd Rref/Cymuned oedd 194:1

Mae'r ystategau'n dangos fod nifer fawr o gynghorau bach a bod cymhareb yr etholwyr i gynghorwyr yn isel. Gall y gyfran gymharol uchel o seddi sy'n dal yn wag adlewyrchu amrywiaeth o resymau ar gyfer pob ardal o ran buddiannau cymunedol ac ati. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod 68% o gynghorau'n cael eu hethol yn ddiymgeisydd yn awgrymu bod mateerion yn bodoli o hyd yngŷn â'r broses ddemocrataidd ei hun. Mae llawer o seddi gwag yn cael eu llenwi hefyd drwy'r broses cyd-ethol aelodau ychwanegol.
Gellir dod i'r casgliad nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol, a bod potensial o hyd i leihau nifer y cynghorau trwy broses o gyfuno, a phennu cymhareb uwch etholwyr i gynghorwyr. Fe allai hyn ennyn mwy o gyfranogiad lleol gyda mwy o etholiadau am lai o seddi.
Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn wedi cyflwyno'r wybodaeth hon i'r Gwenidog dros Lywodraeth leol, a bydd hefyd yn ei rhannu gyda'r

Comisiwn Etholiadoll am mai hwn yw'r unig ymarferiad sydd wedi'i gynnal i gasglu'r data hwn. Nid oes bwriad i ddechrau unrhyw waith pellach ar y mater hwn yn y dyfodol agos. Diben yr ymarfer yw rhannu'r wybodaeth ar draws Cymru gyda'r holl gyrff â diddordeb.

Ar gyfer Llanbedr Pont Steffan

- Ym 2008 roedd 100% o seddi'n ddiymgeisydd;
- Roedd 6.7% o seddi'n wag yn syth ar ôl etholiad; mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu peidio a chyfethol aelod newydd ar gyfer y sedd wag;
- Ym 2008 cymhareb yr etholwyr fesul Cynghorydd Tref/Cymuned yw 114:1

8.4 **Lansio Apêl Nyrs Calon Ceredigion:** er gwybodaeth.

8.5 **Cyngor yr Henoed Ceredigion: CBC: Gwesty'r Plu, Aberaeron** 13/11/2008 am 2.00pm: er gwybodaeth.

8.6 **TraC: Cynllun Trafnidiaeth Lleol Trac:** mae aelodau wedi llenwi holiadur parthed Cynllun Trafnidiaeth Canolbarth Cymru.

8.7 **Ymgynghoriad Parti Werdd Ceredigion ynglŷn â gwasanaethau bws yng Ngheredigion:** cytunodd y Cyng, Phillips i gyflwno ymateb ar ran y Cyngor Tref.

8.8 **Cynllun Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol:** mae'n fwriad gan Gyngor Sir Ceredigion i gyflwyno "Cynllun Trwyddedu Tai Amifeddiannaeth Ychwanegol" drwy Geredigion ar Ebrill 1af 2009. Gwneir hyn yn dilyn y gymeradwyaeth gyffredinol a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007. Bu i'r cynllun trwyddedu gorfodol ddod i rym yng Nghymru ar Fehefin 30ain 2006 ar gyfer pob Tŷ Amifeddiannaeth mwy o faint. Bydd y cynllun trwyddedu ychwanegol arfaethedig yn cynnwys pob eiddo a ddiffinnir fel Tŷ Amifeddiannaeth o dan Deddf Tai 2004. Cytunodd y Gyng. E.Dafis i gyflwno ymateb ar ran y Cyngor Tref.

8.9 **Arweiniad i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru –** Deddf Cymdogaeth Glan a'r Amgylchedd: Llywodraeth Cynulliad Cymru: Y Maer y derbynnydd cyntaf.

8.10 **Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub:** Llywodraeth Cynulliad Cymru: Y Maer y derbynnydd cyntaf.

8.11 **Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

9. MENTER LLAMBED

Gan nad oedd y Cyng. G.Evans yn bresennol, ni dderbyniwyd adroddiad ar ran Menter Llambed.

10. CYNLLUNIO

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

10.1 **Gosod lifft allanol**: Prifysgol Cymru, Heol Y Coleg, Llanbedr PS Rhif y Cais: A080977 – Ymgeisydd: Mr Cennydd Powell: Prifysgol Llanbedr PS – Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.

10.2 **Gosod lifft allanol**: Prifysgol Cymru, Heol Y Coleg, Llanbedr PS Rhif y Cais: A080978LB – Ymgeisydd: Mr Cennydd Powell: Prifysgol Llanbedr PS – Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad.

10.3 **Codi Heulfan: Afon Del**, Parch a Mrs B Fillery, Ffordd Glynhebog: Llanbedr PS: Rhif y Cais: A080959: Sylwadau'r Cyngor Tref: yn hollol gefnogol i'r cais.

10.4 **Newidiadau mewnol**: Porthdy: Prifysgol Cymru Llanbedr PS: Rhif y Cais: AO80943L: Ymgeisydd: Mr C.Powell: mae'r Cyngor Tref yn cefnogi'r cais.

10.5 **Mae'r Cyngor Sir wedi caniatau Parlwr Tatŵ a siop:** Tŷ Tavistock, 17 Sgwâr Harford, Llanbedr PS: Ymgeisydd: Mrs Ainsbury-Panesh, Rhydfelin, Pentre, Tregaron. Rhif y Cais: A080439.

11. CYLLID

11.1 Ceisiadau Ariannol:

11.1.1 Grwp Cyntaf Llanbedr PS y Sgowtiaid: llythyr oddi wrth Mr Grenville Evans yn gofyn am gymorth ariannol i brynu offer a "cit" sydd eu hangen yn ddirfawr. Mae'r Grwp Cyntaf Llanbedr PS y Sgowtiaid yn darparu profiad sgowtiadol i ferched a bechgyn ystod oedran eangyn Llambed ac yn y pentrefi oddi amgylch. Penderfynwyd gofyn am y fantolen arian a'u polisi parthed y defyndd o'r laith Gymraeg, cyn ystyried cyfrannu'n ariannol.

11.1.2 Eisteddfod Genedlaethol Y Bala 2009: Penderfynwyd cyfrannu £100.00

11.1.3 Cae Chwarae yr Hen Ysgol Gynradd: gyferbyn â Eglwys San Pedr: Derbyniwyd ohebiaeth oddi wrth y Cyng. Greg Evans. Mae'r timau Pêl Droed a Rugby Ieuaf wedi gofyn iddo am geisio dod o hyd i le addas ar gyfer eu hymarferion. Fel canlyniad, maent yn ystyried defnyddio'r hen cae chwarae ysgol Ffynnonbedr ar gyfer hyfforddi'r timau iau a mae llythyr ar fin ei anfon at Adran yr Ystadau y Cyngor Sir, yn gofyn am ganiatad.

Gofynnwyd petai'n bosibl i'r Cyngor Tref gyfrannu'n ariannol tuag at llifolau dros-dro, sydd â pris oddeutu £1,000.

Pwyslesiwyd y ffaith gan aelodau'r CT ei fod yn fwriad gennynt i logi/brynu'r cae i'w defnyddio fel amwynder ar gyfer trigolion Llambed. Gallai hyn fod yn wrthwyneb i fwriad y Cyng Evans i logi'r cae ar gyfer cyfleusterau chwaraeon yn unig.

Penderfynwyd cysylltu â'r CSC i ofyn tybed a oes datblygiadau parthed cais y CT i brynu/logi'r cae.

Penderfynwyd i ohirio'r drafodaeth parthed cyfrannu'n ariannol tuag at y llifolau, gan fod aelodau o'r farn bod angen mwy o wybodaeth ynglŷn â'r defnydd posibl o'r cae. Hoffai'r CT atgofio'r sefydliad Pêl Droed a Rugby bod polisi i hybu'r defnydd o'r laith Gymraeg yn cael ei ystyried pan yn trafod ceisiadau ariannol o hyn allan.

11.2 Deunydd Ysgrifennu: Darparwyr Swyddfa Compass: £49.93; TAW £8.74: Siec 001629

11.3 Cyflog y Clerc (Hydref) £497.00

11.4 Golau/Gwres/Storio: £20.00

11.5 Treth Incwm: £91.36

11.6 Penderfynwyd peidio â chyfrannu'n ariannol tuag at:

11.6.1 Cymdeithas Cenedlaethol Colitis ac Afiechyd Crohn Grwp Aberystwyth a'r Fro; &

11.6.2 Bobath Canolfan Therapi Plant Cymru: sy'n darparu therapi Bobath arbenigol i blant o bob rhan o Gymru sydd â pharlys yr ymennydd.

11.7 Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yng Ngheredigion am y rhodd o £100.00.

11.8 Plethdorch Y Pabi Coch: £16.50

11.9 Argraffu 200 o daflenni – Dydd Sul y Cadoediad: £20.00

11.10 Ymweld â'r ystafell Reoli CTCC, Aberystwyth: 20/10/2008: Llogi Bws mini £80.00.

11.11 Ymweld â'r ystafell Reoli CTCC, Aberystwyth: 23/10/2008: Treuliau car @40c/filltir = £20.00

11.12 Yswiriant Zurich: Newidiadau i'r GanolfanYswiriant Cymunedol (Underwriting): er gwybodaeth.

11.13 Arian wrth gefn y Cyngor Tref: Maent mewn cyflwr o newid yn y wlad yn gyffredinol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r £150,000 wrth gefn. Yng ngoleuni digwyddiadau'r 3 mis olaf, efallai y byddai'n ddoeth i rannu'r arian rhwng 3 neu

4 cyfrif. Yn bresennol cedwir yr arian menw 2 gyfrif sef Lloyds TSB a'r Alliance & Leicester.

Mae'r cyfradd log yn syrthio. Mae'r disgyniad o 1.5% yn y Cyfradd-Sylfaen ond yn ddechreuad i ostyngiadau pellach. Efallai y byddai'n arfer da i ddal 3 cyfrif yn cynnwys llai o arian. Penderfynwyd gwneud ymholiadau ar y cyfrifon sydd ar gael ym manciau a chymdeithasau adeiladu yn Llambed ac i glustnodi sylw pellach i'r mater yn ystod y cyfarfod nesaf.

12. IS-BWYLLGORAU

12.1.1 LLWYBRAU CERDDED (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

12.1.1 Mae'r anfoneb o £999 am a gwaith a gariwyd allan ar lwybrau cerdded gan Mr E.Williams wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir - cymhorthdal o 75% o dan Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2008-09.

12.1.2 Mae angen ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar lwybr cerdded sydd wedi ei leoli ger stâd Penbryn.

12.2 CTCC

12.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mis Medi CSC: bu yna 7 cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â lladrad,difrod troseddol a dwyn cerbyd.

12.2.2 Ymweliad â'r Ystafell Reoli

Bu aelodau'n ymweld â'r ystafell Reoli ar Ddydd Llun yr 20fed o Hydref ac ar Nos Iau 23ain o Hydref. Roedd y 6 camera yn gweithio'n llawn ac yn dangos delweddau clir.

12.3 GOLEUADAU STRYD

12.3.1 Mae golau stryd yng nghyffiniau'r Clwb Rugby yn ddiffygiol. I adrodd at sylw'r Cyngor Sir.

12.3.2 Western Power Distribution: Cysylltu goleuadau Nadolig dros-dro heb fesurydd trydan – at sylw Mr Sam Thomas.

12.4 YR IAITH GYMRAEG: Cyflwynodd y Cyng. R.Phillips y Polisi yr Iaith Gymraeg – Adroddiad Blynyddol. Mabwysiadodd Gyngor Tref Llanbedr PS Gynllun Iaith Gymraeg o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 30ain o Awst 2007. Mae 6.4 o'r cynllun yn mynnu fod y Cyngor Tref yn derbyn adroddiad blynyddol ar y cynllun, bod y cyhoedd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad, a bod yr adroddiad yn cael ei chyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Tynnwyd sylw at 2 bwynt

12.4.1 Mae'r Clwb Ieuenctid, sydd newydd ei agor yn Llambed, yn cael ei redeg gan weithwyr ieuenctid, sy'n methu siarad Cymraeg, ar hyn o bryd, ond mae cynrychiolwyr Cyngor Y Dref yn bwriadu codi'r mater gyda'r Cyngor Sir Ceredigion.

12.4.2 Pan yn clustnodi grantiau ar gyfer y dyfodol bydd y CT angen datganiad byr oddi wrth yr ymgeisydd yn egluro sut mae ei fudiad yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Os oes polisi mewn lle, gallai hyn ddylanwadu'n ffafriol ar y cais.

13. U.F.A.

13,1 Penderfynwyd i beidio cynnal cyfarfod y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr.

13.2 Cŵn yn baeddu: yn dal yn broblem ym Mryn-yr-Eglwys, Penbryn ac ar y Cwmins – i adrodd y mater at sylw'r Warden Cŵn CSC.

14. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 27ain o Hydref am 7.30pm.